Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

Cynllun Cydraddoldeb Strategol Adroddiad Blynyddol 2015-16

Cynnwys

1.	Cefndir	Tudalen 3
2.	Dadansoddi data	Tudalen 4
3.	Ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol	Tudalen 4
4.	Cynnydd tuag at gyflawni ein hamcanion yn ystod 2015/16	Tudalen 5
5.	Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb	Tudalen 6
6.	Trefniadau caffael	Tudalen 6
7.	Gwybodaeth am gyflogaeth	Tudalen 7
8.	Gweithwyr ar 31 Mawrth 2016 yn ôl rhyw a chyflog	Tudalen 8
9.	Ceisiadau am swyddi	Tudalen 9
10.	Hyfforddiant staff	Tudalen 10
11.	Gwrandawiadau cwynion a disgyblu a gynhaliwyd yn ystod 2015-16	Tudalen 10
12.	Gweithwyr a adawodd y cyngor yn 2015-16	Tudalen 11
13.	Ymgysylltu ac ymgynghori	Tudalen 12
14.	Cysylltu â ni	Tudalen 12

1. Cefndir

Ein nod fel awdurdod yw deall a mynd i'r afael â'r rhwystrau i gydraddoldeb y mae pobl yn eu hwynebu, fel bod pawb yn cael cyfle teg i gyflawni eu potensial. Rydym ni'n amcanu at sicrhau bod cydraddoldeb yn rhan o bopeth yr ydym yn ei wneud ac o'r gwasanaethau yr ydym yn eu darparu.

Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno rheoliadau newydd sy'n rhoi cyfres o ddyletswyddau penodol ar waith fel sail i'r ddyletswydd gyffredinol a amlinellir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

Mae'r dyletswyddau penodol hyn yn ein helpu i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, cynyddu cydraddoldeb o ran cyfleoedd a meithrin perthnasoedd da.

Mae'r Llywodraeth a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi pwysleisio bod yn rhaid i ni brif ffrydio cydraddoldeb yn fewnol ac yn allanol. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, datblygwyd ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol ym mis Ebrill 2012, a chynllun gweithredu ym mis Medi 2012.

Wrth ddatblygu'r cynllun gweithredu, fe wnaethom ymgysylltu â'r canlynol:

- Y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol ar y pryd (uwch swyddog arweiniol cydraddoldeb);
- Dirprwy Arweinydd y Cyngor ar y pryd (hyrwyddwr cydraddoldeb gwleidyddol);
- Pwyllgor Cydraddoldeb y Cabinet sy'n gyfrifol am fonitro'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol a sut yr ydym yn gweithredu ein hamcanion.

Ers hynny, mae'r cynllun gweithredu wedi'i adolygu'n rheolaidd, a chymeradwywyd y fersiwn ddiweddaraf gan Bwyllgor Cydraddoldeb y Cabinet ym mis Ionawr 2016.

Penaethiaid ac uwch reolwyr gwasanaethau sy'n gyfrifol am sicrhau bod y camau yn cael eu cyflawni o fewn eu meysydd gwasanaeth.

Darperir diweddariadau i'r cynllun gweithredu i Fforwm Cydraddoldeb Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'r aelodaeth yn cynnwys grwpiau a sefydliadau trydydd sector (sy'n cynrychioli grwpiau nodweddion gwarchodedig), yn ogystal â nifer o ddarparwyr gwasanaethau lleol allweddol.

Mae'r adroddiad blynyddol hwn ar gyfer y cyfnod 2015/16 yn ceisio adolygu:

- Cynnydd;
- Effeithiolrwydd trefniadau;
- Amcanion a phrosesau;
- Ymgysylltiad rhanddeiliaid a pha mor agored yr ydym â'n partneriaid â 'r cyhoedd.

Mae gwybodaeth fanylach am sut y cafodd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ei ddatblygu ar gael yma.

2. Dadansoddi Data

Wrth baratoi'r adroddiad blynyddol hwn, gwnaethom:

- Adolygu a myfyrio ar waith blaenorol a oedd eisoes wedi diwallu'r dyletswyddau cyffredinol a phenodol;
- Ailedrych ar ein hamcanion – fel y nodwyd yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol – er mwyn sicrhau eu bod yn dal yn berthnasol;
- Defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd yn ystod ymarfer ymgynghori ac ymgysylltu y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ym mis Chwefror 2016, er mwyn deall pa un a:
    - oedd gennym y staff a'r adnoddau i reoli'r amcanion;
    - oeddem ni'n teimlo'n hyderus y gallem gyflawni'r amcanion;
    - fyddai'r amcanion yn gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl; ac
    - y byddem ni'n dal i allu diwallu'r amcanion o fewn ein hamserlenni

Er gwaethaf ein hymdrechion cydunol i ymgysylltu'n ffurfiol drwy gyfrwng holiaduron a chyfarfodydd wyneb yn wyneb â grwpiau nodweddion gwarchodedig a'r rhai sy'n eu cynrychioli (e.e. rydym wedi datblygu cysylltiadau cryfach â'r gymuned Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol a chymunedau Mwslimaidd lleol), nodwyd nifer o fylchau wrth ddadansoddi ein data. Er mwyn ymdrin â'r rhain, byddwn yn parhau i nodi ffyrdd newydd o ddatblygu cysylltiadau â grwpiau eraill, gan gynnwys grwpiau sipsiwn a theithwyr lleol a chenedlaethol. Bydd hyn yn ein galluogi i ddatblygu sylfaen dystiolaeth fwy cadarn ar gyfer adeiladu amcanion effeithiol ac ystyrlon, yn ogystal â dull cydweithredol o ddatblygu gwasanaethau.

3. Ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol

Gwnaethom ddatblygu, ymgynghori a chytuno ar y naw amcan cydraddoldeb strategol canlynol ar gyfer ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2012 - 2016:

Amcan Cydraddoldeb 1: Cludiant	Byddwn yn helpu i ddarparu rhwydwaith cludiant hygyrch, cost effeithiol, hollgynhwysol o fewn Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.
Amcan Cydraddoldeb 2: Meithrin Perthnasoedd Da	Byddwn yn hyrwyddo cymdeithas decach mewn modd cadarnhaol ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr drwy gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r materion sy'n wynebu pobl sydd â nodwedd warchodedig.
Amcan Cydraddoldeb 3: Cyfrifoldeb y Cyngor fel Cyflogwr	Byddwn yn adeiladu ar ein hymdrechion i fod yn gyflogwr cynhwysol a chefnogol, gan hyrwyddo amrywiaeth a chydraddoldeb yn ein gweithlu.
Amcan Cydraddoldeb 4: Iechyd Meddwl	Bydd ein gwasanaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion yn adeiladu ar ei waith mewn partneriaeth â'r trydydd sector i ddarparu cymorth a gwasanaethau iechyd meddwl.
Amcan Cydraddoldeb 5: Cyflog Cyfartal	Byddwn yn sicrhau bod ein gweithwyr yn cael eu talu yr un faint am wneud yr un gwaith, waeth beth fo'u nodweddion gwarchodedig.
Amcan Cydraddoldeb 6:	Byddwn yn darparu mynediad teg a chyfartal i

Hamdden	gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau hamdden i holl aelodau'r gymuned.
Amcan Cydraddoldeb 7: Budd-daliadau	Byddwn yn cyflwyno mesurau i liniaru effeithiau'r adolygiad cenedlaethol o fudd-daliadau ar drigolion Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.
Amcan Cydraddoldeb 8: Data	Byddwn yn datblygu system i gasglu, dadansoddi, monitro a chyhoeddi data cydraddoldeb sy'n ymwneud â'n defnyddwyr gwasanaeth a'n gweithwyr.
Amcan Cydraddoldeb 9: Cyfathrebu, Ymgynghori ac Ymgysylltu	Byddwn yn gwella'r ffyrdd yr ydym yn cyfathrebu, yn ymgynghori ac yn ymgysylltu â'r rhai hynny sy'n rhannu nodwedd warchodedig.

4. Cynnydd tuag at gyflawni ein hamcanion yn ystod 2015/16:

Nod ein hamcanion yw gwella canlyniadau i bobl sy'n rhannu un neu fwy o'r nodweddion gwarchodedig. Trwy ein gwaith cydraddoldeb a gweithgarwch ymgysylltu, rydym yn ymwybodol o nifer o faterion blaenoriaeth penodol o ran hil, crefydd, cred a thrawsrywedd. Mae profiad, gwybodaeth ac arbenigedd o ran oedran, rhyw, anabledd, beichiogrwydd a mamolaeth, a phriodas a phartneriaeth sifil yn datblygu.

Cludiant

- Nid yw ein fforwm tacsi Pen-y-bont ar Ogwr wedi llwyddo i gynyddu'r nifer o dacsis sy'n gallu cludo cadeiriau olwyn, fel yr oeddem wedi gobeithio. Fodd bynnag, wrth symud ymlaen, byddwn yn parhau i weithio gyda darparwyr lleol i ddylanwadu ar gynnydd i'r nifer hwn.

Meithrin Perthnasoedd Da

- Rydym wedi parhau i nodi a chefnogi ymgyrchoedd cenedlaethol sy'n berthnasol i bob un o'r nodweddion gwarchodedig, a hynny drwy gyfryngau cymdeithasol a'n gwefan i godi ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd yn gyffredinol o weithgareddau a dathliadau ehangach yn ymwneud ag amrywiaeth;
- Mae bwlio mewn ysgolion yn parhau i fod yn fater y byddwn yn parhau i'w fonitro;
- Gwnaethom gefnogi Mardi Gras Caerdydd drwy rannu gwybodaeth amdano ar ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol corfforaethol ac ar ein gwefan;
- Parhaodd fforwm Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol Pen-y-bont ar Ogwr i gwrdd yn 2015/16;
- Gwnaethom gefnogi a hyrwyddo Mis Hanes Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol (mis Chwefror), drwy rannu gwybodaeth amdano ar ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol corfforaethol ac ar ein gwefan, a thrwy gyhwfan y faner enfys a'r faner drawsrywiol drwy gydol y mis, yn ein Swyddfeydd Dinesig;

- Gwnaed cyfeiriad clir yn ein digwyddiad Diwrnod Cofio'r Holocost blynyddol, at yr holl grwpiau o bobl a wynebodd erledigaeth (a phobl sy'n dal i wynebu erledigaeth) yn ystod yr holocost. Drwy wneud hyn, rydym yn sicrhau bod y cof am yr erchyllterau hyn yn parhau yn fyw.

Swyddogaeth y Cyngor fel cyflogwr

- Gwnaethom ddarparu cyrsiau hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth i reolwyr a staff rheng flaen sy'n ymwneud â chwsmeriaid;
- Parhaodd y modiwlau e-ddysgu i gyd-fynd â'r hyfforddiant wyneb yn wyneb i fod ar gael i staff;
- Parhaodd ein rhwydwaith staff Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol i gwrdd.

Data

- Gwnaethom barhau i gasglu data cydraddoldeb am ein gweithlu.

Cyfathrebu, ymgynghori ac ymgysylltu

Rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016, ymgynghorodd y cyngor ar:

Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd
Adleoli Ysgol Gynradd Pencoed
Newid darpariaeth yn Ysgol Gynradd Pil i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol
Strategaeth Tai Leol
Arolwg Mesur Blaenoriaethau Corfforaethol
Cynllun Cydraddoldeb Strategol
Adolygiad o Wastraff ac Ailgylchu yn y Cartref 2015
Safleoedd Sipsiwn, Teithwyr a Phobl Sioe
Parcio Bathodyn Glas
Heneiddio'n dda ym Mhen-y-bont ar Ogwr
Llunio Dyfodol Pen-y-bont ar Ogwr
Teithio Egnïol 2015
Arolwg gofal cartref
Cynllun Strategaeth Dementia
Adleoli Ysgol Gynradd Gymraeg Cwm Garw
Ymestyn ac adleoli Ysgol Gynradd Brynmenyn
Adolygiad o Waith Gofalwyr Pafiliynau Chwaraeon 2015

5. Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EIA)

Rydym ni'n ymwybodol o'r angen am hyfforddiant a chymorth EIA ar gyfer swyddogion. Mae pecyn cymorth EIA manwl ond hawdd ei ddefnyddio wedi'i ddatblygu a'i gyflwyno i wneud y broses EIA yn fwy ystyrlon. Rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016, cyflawnodd 24 o weithwyr y modiwl e-ddysgu EIA.

6. Trefniadau Caffael

Mae'r tîm ymgysylltu'n gweithio â'r gwasanaeth caffael i sicrhau bod materion cydraddoldeb yn cael eu hintegreiddio'n llawn i'r broses gaffael.

7. Gwybodaeth am Gyflogaeth

Ar 31 Mawrth 2016 roedd 6211 o weithwyr yn y cyngor, gan gynnwys y rhai a gyflogir mewn ysgolion. Mae nifer a phroffiliau oedran yn darparu dadansoddiad o'r gweithwyr hyn. Fodd bynnag, mae manylion y nodweddion gwarchodedig eraill wedi'u seilio ar yr wybodaeth a ddarparwyd gan weithwyr. Mae'r ffigurau canran hyn felly wedi'u seilio ar yr wybodaeth sydd ar gael, nid ar y gweithlu cyfan.

	CBS Pen-y-bont ar Ogwr – ar 31.03.2016			
Disgrifiad	**Gwryw**	**Benyw**	**Cyfanswm**	**%**
Cyfanswm y Gweithwyr	1284	4927	**6211**	
O'r uchod:				
Llawn amser	997	1714	2711	**43.6%**
Rhan-amser	287	3213	3500	**56.4%**
Anabledd wedi'i ddatgan	**36**	**72**	**108**	**1.7%**
Cyfrifoldeb Gofalwr wedi'i ddatgan	**38**	**250**	**288**	**4.6%**
Cyfanswm Lleiafrif Ethnig	**11**	**69**	**80**	**1.3%**
Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig	1	29	30	0.5%
Du neu Du Prydeinig	5	5	10	0.2%
Tsieineaidd	0	5	5	0.1%
Hil Gymysg	2	20	22	0.4%
Unrhyw grŵp ethnig arall	3	10	13	0.2%
Siaradwr Cymraeg	**186**	**807**	**993**	**16.0%**
'Ychydig'	122	511	633	10.2%
'Yn Weddol Dda'	23	77	100	1.6%
'Yn rhugl'	41	219	260	4.2%
Darllenwr Cymraeg	**190**	**832**	**1022**	**16.5%**
'Ychydig'	121	522	643	10.4%
'Yn Weddol Dda'	29	92	121	1.9%
'Yn rhugl'	40	218	258	4.2%
Ysgrifennwr Cymraeg	**149**	**712**	**861**	**13.9%**
'Ychydig'	90	426	516	8.3%
'Yn Weddol Dda'	21	78	99	1.6%
'Yn rhugl'	38	208	246	4.0%
Rhywioldeb				
Heterorywiol	463	1718	2181	35.1%
Deurywiol	3	13	16	0.3%
Dyn Hoyw	0	15	15	0.2%
Menyw Hoyw / Lesbiad	1	12	13	0.2%

Trawsrywiol	2	5	7	0.1%
Arall	2	9	11	0.2%
Mae'n well gennyf beidio â dweud	40	90	130	2.1%
Proffil Oedran				
16-19	13	28	41	**0.7%**
20-25	74	262	336	**5.4%**
26-30	114	426	540	**8.7%**
31 - 35	124	550	674	**10.9%**
36 - 40	145	596	741	**11.9%**
41 - 45	159	782	941	**15.2%**
46 - 50	188	760	948	**15.3%**
51 - 55	201	703	904	**14.6%**
56 - 60	145	530	675	**10.9%**
61 - 65	88	217	305	**4.9%**
66 +	33	73	106	**1.7%**
Cyfanswm	**1284**	**4927**	**6211**	

8. Gweithwyr ar 31 Mawrth 2016 yn ôl rhyw a chyflog

Rhoddwyd ein Strwythur Cyflog a Graddio ar waith o 1 Medi 2013 ymlaen, ac mae dull clir a chadarn ar waith ar gyfer gwerthuso graddau cymharol y gwahanol swyddi. Mae hyn yn seiliedig ar swyddi a chyfrifoldebau yn hytrach nag unrhyw ffactor unigol sy'n ymwneud â'r gweithiwr.

Gradd	Gwryw	Benyw	Cyfanswm
Graddau GS 1 – 8 (£13,500 - £23,698)	592	3817	4409
Graddau GS 9 – 10 (£25,440 - £29,558)	117	210	327
Graddau GS 11 – 16 (£30,978 - £48,364)	166	295	461
Prif Swyddogion (£74,542 - £131,091)	6	8	14
Swyddogion Ieuenctid a Soulbury (£19,236 - £60,633)	11	35	46
Athrawon, Penaethiaid, Dirprwy Benaethiaid a Phenaethiaid Cynorthwyol (£22,023 - £107,210)	332	1052	1384
CYFANSWM	**1224**	**5417**	**6641**

Noder bod y ffigyrau uchod yn seiliedig ar nifer y swyddi ledled yr awdurdod. Os oes gan weithiwr fwy nag un swydd, caiff ei gyfrif yn y tabl uchod ar gyfer pob swydd y mae'n ei gwneud. Felly, ni fydd y ffigyrau uchod yn cyfateb i gyfansymiau eraill yn yr adroddiad hwn, sy'n seiliedig ar gyfrif pennau.

9. Ceisiadau am swyddi

Rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016, derbyniasom 9,792 o geisiadau swyddi gan 4,694 o ymgeiswyr unigol, sy'n cynnwys ymgeiswyr mewnol ac allanol. Fodd bynnag, mae manylion y nodweddion gwarchodedig eraill wedi'u seilio ar yr wybodaeth a ddarparwyd gan y gweithwyr. Mae'r ffigurau canran hyn felly wedi'u seilio ar yr wybodaeth sydd ar gael, nid ar y gweithlu cyfan. Mae dadansoddiad o'r ymgeiswyr fel a ganlyn:

Disgrifiad	**Nifer yr ymgeiswyr %**	
Ymgeiswyr Gwrywaidd	1465	31.2%
Ymgeiswyr Benywaidd	3223	68.7%
Dim manylion	6	0.1%
Anabledd wedi'i ddatgan	228	4.9%
Proffil Oedran:		
16 – 25	1229	26.2%
26 – 35	1368	29.1%
36 – 45	1005	21.4%
46 – 55	793	16.9%
56 – 65	282	6.0%
66+	17	0.4%
Anhysbys	0	0.0%
Cyfeiriadedd Rhywiol		
Heterorywiol	4170	88.8%
Deurywiol	38	0.8%
Dyn Hoyw	42	0.9%
Menyw Hoyw/Lesbiad	51	1.1%
Mae'n well gennyf beidio â dweud	118	2.5%
Arall	23	0.5%
Anhysbys/heb ei ddatgan	252	5.4%
Statws Priodasol		
Priod	1665	35.5%
Byw gyda phartner	747	15.9%
O'r un rhyw neu Bartneriaeth Sifil	13	0.3%
Wedi gwahanu/ ysgaru	314	6.7%
Sengl	1781	37.9%
Gweddw	30	0.6%
Mae'n well gennyf beidio â dweud	25	0.5%
Anhysbys/heb ei ddatgan	119	2.5%
Hil		
Gwyn	4498	95.8%
Asiaidd/Asiaidd Prydeinig	26	0.6%
Du/Du Prydeinig	32	0.7%
Tsieineaidd	7	0.1%
Hil gymysg	8	0.2%
Mae'n well gennyf beidio â dweud	44	0.9%
Grŵp Ethnig Arall	11	0.2%
Anhysbys/heb ei nodi	68	1.4%

10. Hyfforddiant staff

Mae ein trefniadau ar gyfer darparu hyfforddiant staff corfforaethol yn darparu sicrwydd bod hyfforddiant ar gael i bob gweithiwr heb ystyried eu nodwedd warchodedig. Gellir categoreiddio'r hyfforddiant a roddwyd fel a ganlyn:

- Hyfforddiant ar ôl dechrau swydd – yn dilyn cais gan y gweithwyr trwy'r polisi Hyfforddiant ar ôl Dechrau Swydd. Ceisiadau a gaiff eu cytuno gan reolwyr llinell yn unig a gaiff eu hanfon i'r adran Adnoddau Dynol, felly ni allwn adrodd yn gywir ar y nifer o geisiadau a wrthodwyd;
- Hyfforddiant wyneb yn wyneb – mae mwyafrif yr hyfforddiant wyneb yn wyneb wedi'i dargedu ac felly gwahoddir gweithwyr i fynd iddo. Nid ydym yn debygol o fod yn ymwybodol o weithwyr nad yw eu rheolwr llinell wedi cymeradwyo'r cais i fynd.
- E-ddysgu – mae cyflawni cwrs e-ddysgu yn wirfoddol ac mae mwyafrif ein cyrsiau am ddim i'r holl ddefnyddwyr, felly ni fyddai unrhyw geisiadau yn dod i law ar eu cyfer.

Gofyniad y Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yw bod cyrff rhestredig yng Nghymru, gan gynnwys cynghorau, yn cyhoeddi'r wybodaeth berthnasol sydd ganddynt oni bai y byddai'n amhriodol gwneud hynny. I gydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data, nid ydym yn gallu datgelu gwybodaeth am hyfforddiant ar ôl dechrau swydd, er y cesglir y data hynny, mae nifer y gweithwyr a nifer y data yn rhy fach i ni eu dehongli mewn modd ystyrlon.

11. Gwrandawiadau cwynion a disgyblu a gynhaliwyd yn ystod 2015-16

Mae hyn yn cynnwys gweithwyr sy'n rhan o weithdrefnau cwyno fel un sy'n cyflwyno cwyn, un y cyflwynir cwyn yn ei erbyn neu sy'n destun gweithdrefn ddisgyblu. I gydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data, nid ydym yn gallu datgelu'r wybodaeth hon. Ym mhob categori, mae nifer y gweithwyr a nifer y data yn rhy fach i ni eu dehongli mewn modd ystyrlon.

12. Gweithwyr a adawodd y cyngor yn 2015-16

Mae'r data canlynol yn berthnasol i 861 o unigolion a adawodd gyflogaeth y cyngor rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016. Er bod y data sydd wedi'u cynnwys yn gywir, dylid nodi bod yr wybodaeth a'r data am y gweithwyr a gedwir gan y cyngor yn anghyflawn gan eu bod wedi'u seilio ar yr hyn a ddarparwyd gan weithwyr. Mae'r ffigurau canran hyn felly wedi'u seilio ar yr wybodaeth sydd ar gael, nid y gweithlu cyfan.

Disgrifiad	Nifer yr Ymadawyr	% yr Ymadawyr
Ymadawyr gwrywaidd	281	32.6%
Ymadawyr benywaidd	580	67.4%
Anabledd wedi'i ddatgan	29	3.4%
Proffil Oedran:		
16 – 25	74	8.6%
26 – 35	159	18.5%
36 – 45	196	22.8%
46 – 55	190	22.1%
56 – 65	206	23.9%
66+	36	4.2%
Cyfeiriadedd Rhywiol		
Heterorywiol	379	44.0%
Deurywiol	0	0.0%
Dyn Hoyw	5	0.6%
Menyw Hoyw/Lesbiad	8	0.9%
Mae'n well gennyf beidio â dweud	32	3.7%
Arall	1	0.1%
Anhysbys/heb ei ddatgan	436	50.6%
Statws Priodasol		
Priod	418	48.5%
Byw gyda phartner	46	5.3%
O'r un rhyw neu Bartneriaeth Sifil	6	0.7%
Wedi gwahanu/ ysgaru	76	8.8%
Sengl	210	24.4%
Gweddw	9	1.0%
Mae'n well gennyf beidio â dweud	6	0.7%
Anhysbys/heb ei ddatgan	90	10.5%
Hil		
Gwyn	773	89.8%
Asiaidd/Asiaidd Prydeinig	1	0.1%
Du/Du Prydeinig	3	0.3%
Tsieineaidd	0	0.0%
Hil gymysg	3	0.3%
Mae'n well gennyf beidio â dweud	0	0.0%
Grŵp Ethnig Arall	1	0.1%

Anhysbys/heb ei nodi	80	9.3%

13. Ymgysylltu ac ymgynghori

Ein nod yw cynnwys barn grwpiau cynrychioladol yn ein prosesau cynllunio a gwneud penderfyniadau. Mae hyn yn dangos ein hymrwymiad i ddatblygu gwasanaethau hygyrch i'r cyhoedd ac i'n gweithwyr.

Mae ymgysylltu yn rhan bwysig o'n gwaith, felly rydym yn rhoi prosesau penodol ar waith i sicrhau y rhoddir ystyriaeth i anghenion pobl ac yr ymdrinnir â'r holl agweddau ar amrywiaeth.

Mae gweithwyr a rhanddeiliaid sy'n cynrychioli'r grwpiau nodweddion gwarchodedig yn cymryd rhan lawn yn y gwaith o ddarparu, gweithredu, monitro a gwerthuso ein hamcanion.

Rydym yn cyhoeddi adroddiadau ymgynghori ynglŷn â chanlyniad ein gweithgarwch ymgysylltu, i ddangos yn glir sut y mae pobl wedi dylanwadu ar gynllunio a gwneud penderfyniadau yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Gellir gweld rhagor o wybodaeth am sut yr oedd pobl yn rhan o ddatblygiad ein hamcanion, a sut y gwnaethant ddylanwadu ar y broses, yma.

14. Cysylltu â Ni

Nid adroddiad y cyngor yn unig yw adroddiad blynyddol ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol; y mae wedi ei ysgrifennu yn dilyn gwaith yr ydym wedi'i wneud gyda'n partneriaid, megis Fforwm Cydraddoldeb Pen-y-bont ar Ogwr, ac mae'n ceisio sicrhau bod Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn lle teg a chroesawgar i fod ynddo. Ysgrifennwyd y cynllun ar sail yr hyn yr oeddem yn ei wybod am ein gwasanaethau, a barn ac anghenion trigolion Pen-y-bont ar Ogwr a'r rhai sy'n defnyddio ein gwasanaethau.

Os hoffech gael copi papur o'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol neu gopi mewn fformat arall, cysylltwch â ni:
Drwy e-bost: talktous@bridgend.gov.uk
Dros y ffôn: 01656 643643
Gan ddefnyddio ffôn testun: 18001 01656 643643
Drwy ffacs: 01656 668126

Yn ysgrifenedig:
Swyddfeydd Dinesig Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4WB.

Mae ein Canolfan Cyswllt Cwsmeriaid ar agor o 8am tan 5.30pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Dyma ein Gweithdrefn Gwyno.

Neu, i gysylltu ag adran yn uniongyrchol, cyfeiriwch at y rhestr A-Y o Wasanaethau sydd ar ein gwefan.